# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Mawrth 2024 – Cyfrol 9 – Rhifyn 6

## Llwyddo ym myd chwaraeon




Mae Alisha Whitehead-Hughes sydd wedi chwarae i dîm merched Llandyrnog, wedi ymuno â chlwb pêl-droed merched Connah's Quay Nomads. Mae Alisha wedi sgorio 107 o goliau i Glwb Henllan ers mis Medi 2021 a 21 gôl hyd yn hyn y tymor hwn.



Chwaraeodd Tom Hughes am y tro cyntaf dros dîm y Bala yn erbyn Mynydd y Fflint, ac yn ffodus, roedd y gêm wedi'i darlledu'n fyw ar S4C. Ennyd i'w gofio am byth i Tom a'r teulu i gyd. A hyn ddim ond mis ar ôl i ni ei longyfarch ar gael contract gyda thîm cynta'r clwb, ac yntau ddim ond yn 17 oed.




Mae Jimmy McNally wedi'i benodi'n rheolwr tîm Colts Rhuthun ar gyfer tymor 2004/25.



Llongyfarchiadau i Daniel Whelan ar ddod yn aelod o sgwad rygbi dan 11 Siroedd y Gogledd. Mae wedi'i ddewis i'r tîm fydd yn chwarae erbyn Llanelli maes o law mewn cystadleuaeth genedlaethol.

**Dydd Gŵyl Dewi Hapus!**



# Pytiau newyddion y pentre

**Cydymdeimlwn** â Dafydd Rowlands a'r teulu, 4 Maes Clwyd o golli ei dad, y Parch. Tudur Rowlands, Rhewl**.**

**Dymuniadau gorau** i Peter Vine sydd heb fod yn hwylus yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau** i Jackie Le Fevre a enillodd doethuriaeth yn ddiweddar o Brifysgol Swydd Hertford.

**Codi arian** Unwaith eto mae'r eglwys yn codi arian at WaterAid dros y Grawys. Os hoffech chi gyfrannu hefyd, y cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw hel newid mân mewn jar (mae jariau ar gael o'r eglwys) a mynd ag o i'r eglwys ar ôl y Pasg.

**Diolch yn fawr** i bawb a gefnogodd y bore coffi tuag at Beiciau Gwaed Cymru ac a gyfrannodd mor hael. Codwyd £460.

hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 2il | Grŵp crefftau, 10am–4pm |
| Sul | 3ydd | Ffair grefftau, 10am–3pm |
| Llun | 4ydd | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mawrth | 5ed | Pwyllgor y Gymdeithas Hanes, 7pm |
| Sul | 10fed | Llan Llanast 3.30–6pm |
| Llun | 11eg | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mawrth | 12fed | Pwyllgor y Sioe Flodau, 7pm |
| Llun | 18fed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mawrth | 19eg | Y Gymdeithas Hanes: Dyddio Carbon ar Benycloddiau – Rachel Pope |
| Sad | 23ain | Bore coffi – Tuesday Club, 10–11.30am |
| Llun | 25ain | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |

**I hurio'r neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**

## Gwasanaethau mis Mawrth yn eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 3ydd | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 10fed | 11.15am<br>3.30 pm | Cymun Bendigaid<br>Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 17eg | 11.15am | Boreol Weddi |
| 24ain | 11.15am<br>3pm | Gwasanaeth Sul y Blodau<br>Gosber Cymraeg |
| 31ain | 11.15am | Cymun Bendigaid y Pasg |

# Prosiect y siop gymunedol

Ar ôl 20 mis o weithio ar Brosiect Siop a Swyddfa’r Post, daeth y 9fed o Chwefror 2024 yn ddyddiad cofiadwy iawn pan gorffennwyd y gwaith i brynu Swyddfa Bost Llandyrnog.

Rydym yn ddiolchgar i Rob a Ros am eu cefnogaeth ac yn rhoi amser i ni gael ein cyllid grant at ei gilydd i gwblhau’r pryniant. Rydym am ddymuno’r gorau iddynt yn eu cartref newydd ar ôl rhedeg y siop a’r swyddfa bost yn y pentref am yr 11 mlynedd diwethaf.

Mae swyddfa’r post bellach ar gau dros dro er mwyn gallu cynnal rhaglen adnewyddu a gwelliannau cyn ailagor. Rydym yn gwybod y bydd cau dros dro yn achosi rhywfaint o anghyfleustra a diolch i bawb am eu dealltwriaeth.

Rwy’n siŵr y bydd y gymuned yn gweld llawer o weithgarwch wrth i’r gwaith ddechrau cael ei wneud yn ystod yr wythnosau nesaf ac edrychaf ymlaen at ddangos y newidiadau mawr i bawb pan fydd y drysau’n ailagor o’r diwedd.

Rydym yn ddiolchgar am gymorth gwirfoddolwyr sy’n cynorthwyo gyda rhai agweddau allweddol o’r gwaith ac yn croesawu unrhyw un a hoffai roi help llaw.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym hefyd wedi sicrhau grant gan Fferm Wynt Brenig ac yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth. Bydd hyn yn ein cynorthwyo gyda ffioedd pensaer a chostau sy’n gysylltiedig ag adleoli cownter Swyddfa'r Post.

Unwaith y bydd y gwaith ar yr eiddo wedi’i gwblhau, yn ogystal â chymorth gwirfoddolwyr, bydd angen i ni recriwtio dau reolwr siop cyflogedig i oruchwylio’r siop, swyddfa’r post a’r ganolfan. Mae croeso i chi gysylltu â ni am sgwrs anffurfiol os ydych chi’n meddwl y gallai hyn fod o ddiddordeb.

Dilynwch ein gwaith ar ein tudalen Siop Llandyrnog ar y We neu ar ein tudalen Facebook.

*Emyr Morris*




*Rob a Ros yn rhoi’r allweddi i Emyr a Viv*

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 4ydd | Grŵp crefftau, gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Mawrth | 5ed | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mercher | 6ed | Cyfarfod Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |
| Llun | 11eg | Grŵp crefftau, gweu a chrosio, 10am |
| Llun | 18fed | Grŵp crefftau, gweu a chrosio, 10am |
| Mawrth | 19eg | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mercher | 20fed | Tuesday Club, 2pm |
| Llun | 25ain | Grŵp crefftau, gweu a chrosio, 10am |

*I logi’r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Dod i adnabod ... Ben Lindquist

Dechreuodd Ben ar ei waith yn Bennaeth Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor ym mis Medi 2023.

*Beth yw eich atgofion cynharaf?*
Mae'n siŵr mai atgofion am fynd gyda Dad i Glwb Golff Abergele yn blentyn ifanc yw fy rhai cynharaf i. Bydden ni'n ymarfer ar y llain bytio, a chael diod a phecyn o greision yn y bar wedyn. Atgofion braf iawn.

*Sut dewisoch chi'ch gyrfa?*
Fe es i i'r brifysgol yn Ne Cymru a chael gradd mewn gwyddor chwaraeon. Ar ôl dychwelyd i Ogledd Cymru, roeddwn i'n methu cael gwaith a oedd yn gysylltiedig â fy ngradd. Gan fod angen arian arna i, fe wnes i gais am swydd gweinyddu yn Ysgol Dewi Sant, y Rhyl, a'i chael. Roedd y Pennaeth ar y pryd, Mr Alun Jones yn allweddol yn rhoi profiad i mi yn yr ystafell ddosbarth a mynnodd fy mod yn gwneud cais i Brifysgol Bangor i gael fy nhystysgrif ôl radd. Rwy'n ddyledus iawn i Mr Jones am gredu ynof i.

*Pam roeddech chi am fod yn bennaeth Ysgol Bryn Clwyd?*
Gan fy mod i eisoes wedi gweithio yn yr ysgol o 2013 tan 2017, fe ddes i i adnabod ein cymuned a'n teuluoedd hyfryd, a'u deall. Pan welais yr hysbyseb am Bennaeth yr ysgol, roeddwn i'n gwybod bod hyn yn gyfle i ddychwelyd at fan cychwyn fy ngyrfa a meithrin yr addysg fendigedig sydd eisoes ar waith, ochr yn ochr a staff ymroddedig Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor.

*Pwy yw eich arwr?*
Wrth dyfu i fyny, roeddwn i'n edmygu Mam a Dad yn fawr. Roedd eu gofal am fy mrawd a minnau mor dda, a hwythau'n gweithio'n galed fel athro a nyrs. Dyma'r gwerthoedd rwy'n ceisio'u cynnal a'u rhoi i fy mhlant fy hun. Ond fy arwr go iawn: Tiger Woods. Roedd gan y rhan fwyaf o blant luniau pêl-droedwyr ar eu waliau, ond llun Tiger Woods oedd gen i. Agwedd, penderfyniad, ymroddiad – roedd ganddo'r cyfan. LEJEND!

*Beth ydych chi'n hoffi ei wneud yn eich amser hamdden?*
Bob dydd Sadwrn, bydda i yng Nghlwb Golff Abergele, yn treulio ychydig o oriau'r wythnos yn yr awyr iach gyda fy ffrindiau. Wrth gwrs, mae'r amser arbennig rwy'n cael gyda fy ngwraig a'n pedwar plentyn hefyd yn werthfawr iawn.

*Beth sy'n eich gwneud chi'n flin a beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?*
Does dim llawer o bethau'n fy ngwneud i'n flin, a bod yn onest – byddai'n rhaid i mi ddweud mynd yn brin o amser i'w dreulio gyda'r teulu a gwneud y pethau rwy'n mwynhau eu gwneud.

**Cymanfa Ganu Sul y Blodau**

**24 Mawrth am 5 o'r gloch**

**Capel y Dyffryn, Llandyrnog**

**Arweinydd: Trystan Lewis**



# Ysgol Bryn Clwyd






Mae babanod wedi bod yn mwynhau'r stori *Rumble in the Jungle* ac yn gwneud masgiau anifeiliaid o'r cymeriadau gwahanol.

Mae'r ddau ddosbarth yn parhau â phwnc y fforest law yr hanner tymor yma. Mae'r dosbarth Iau wedi bod yn gwneud gwaith celf wedi'i ysbrydoli gan ddarlun Rousseau, 'Surprise' ac wedi ymchwilio'n wyddonol i beillio blodau gan ddefnyddio gwenyn wedi'u gwneud o bethau glanhau cetyn!






Mae cyfeillion yr ysgol wedi bod yn brysur hefyd, yn trefnu parti Sant Ffolant yn y neuadd – cafodd pawb lawer o hwyl!

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Dewi Sant

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn gyfarwydd â hanes Dewi, ei eni mewn storm, a'i wyrthiau, ond beth am y straeon a'r honiadau llai cyfarwydd?

Mae'n debyg bod Dewi wedi gwella sawl un trwy wyrth, ond mae stori arall am un o'i wyrthiau yn dangos pwysigrwydd gwenyn. Roedd mynach o Iwerddon, Modomnoc, yn cadw'r gwenyn ym mynachlog Dewi, yn gwneud mêl a chwyr. Roedd yn rhaid iddo ddychwelyd i Iwerddon, ond roedd ei wenyn yn ei ddilyn i'r cwch. Dychwelodd gyda'r gwenyn dair gwaith, nes i Dewi eu bendithio a gadael i Modomnoc mynd a nhw gydag e, a dyna sut aeth gwenyn i Iwerddon!

Stori arall lai cyfarwydd yw'r un am drafferthion Dewi a phennaeth paganiaid, Boia, wrth iddo sefydlu ei fynachlog yn y dyffryn. Gwyddel oedd Boia. Daeth Dewi i'r dyffryn o dan ei gartref cadarn a chyneuodd danau – roedd hyn yn cadarnhau ei hawl i'r ardal. Anfonodd Boia ei ryfelwyr i gael gwared ar David a'i gyfeillion ond rhoddodd Dewi 'swyn' ar ddynion Boia a'i wartheg i gyd, i wneud iddyn nhw syrthio fel petaen nhw'n farw. Cymododd Boia â Dewi a throi at Gristnogaeth, felly cododd Dewi y swyn. Ond roedd gwraig Boia yn dal i wrthwynebu Dewi ac anfonodd ei morynion i ymdrochi'n noeth yn yr afon i demtio mynachod Dewi. Pan fethodd hyn, denodd ei llysferch i'r dyffryn a'i dienyddio. Tarddodd ffynnon wyrthiol o'r fan, ffynnon a oedd yn iacháu. Cynddeiriogodd gwraig Boia a ffoi, a thorrodd goresgynwyr ben Boia ar ôl iddo droi yn erbyn Dewi. Y traddodiad yw bod tân wedi syrthio o'r nefoedd a dileu holl olion Boia.

Ceisiodd mynachod Dewi ei wenwyno unwaith, oherwydd iddyn nhw gael llond bol ar ei fywyd duwiol. Daeth Ysgolan, un o ddisgyblion Dewi, ar frys o Iwerddon ar gefn anghenfil y môr i'w rybuddio. Wedyn bendithiodd Dewi y dorth wenwynig, ei bwyta a dim ond ychydig o ddiffyg traul a gafodd.

# Llan Llanast

Yn sesiwn gynta'r flwyddyn o Lan Llanast, fe ddysgon ni am gariad mawr Duw a sut mae'n ofalus ohonon ni i gyd. Fe wnaethon ni bob math o grefftau siâp calon, gan gynnwys calon fawr iawn sy'n dweud 'Mae Duw yn ein caru ni bob tamaid'. Mae hon yn yr eglwys erbyn hyn. Buon ni'n canu caneuon ac wedyn cawson ni bryd hyfryd gyda'n gilydd.




Bydd ein sesiwn nesa am 3.30 y pnawn, 10 Mawrth, yn Neuadd y Pentre ac mae croeso cynnes i bawb. Rhaid i blant ddod ag oedolyn gyda nhw i rannu'r hwyl!

*Mary Steel*

# Undeb y Mamau

Yng nghyfarfod mis Chwefror, daeth Graham Jones, prif weithredwr Woody's Lodge aton ni. Mae hwn yn fudiad sy'n helpu cyn-filwyr, cyn-weithwyr gwasanaethau brys, a chyn-staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Rhoddodd Graham sgwrs ddiddorol i ni am Woody's Lodge a rhoi cip ar yr heriau niferus ac amrywiol mae'r rhai sy'n defnyddio'r lle yn eu hwynebu. Gobeithio y byddan nhw'n wynebu dyfodol gwell gyda chefnogaeth a help y sefydliad arbennig hwn.

# Tuesday Club



Yng nghyfarfod mis Chwefror, y siaradwraig wadd oedd Liz Jones o Fodfari. Yn 1987, aeth ei theulu o Lanrhaeadr i fyw ym Maes Sied, Bodfari a datblygodd ei thad fferm ffrwythau yno. Roedd hon yn gyrchfan boblogaidd i bobl hel eu ffrwythau eu hunain, yn yr 1990au yn enwedig. Roedd sawl math o ffrwythau meddal yn tyfu yno.

Gyda'r blynyddoedd, aeth y gwaith o dyfu'r ffrwythau i'w bwyta yn rhy anodd, a phenderfynodd Liz ailgyfeirio gan ddefnyddio'r ffrwythau i roi blas arbennig i jin. Schlizzy yw'r enw ar y diodydd hyn a gallwch gael rhai blas afal, cwrens duon, ceirios, mafon, gwsberis, mefus ac eirin Dinbych. Mae Liz yn ymweld â gwyliau bwyd ac ambell ffair i'w gwerthu.



Yn 2021, penderfynodd Liz a'i chwaer, Rosie roi dau *pod* glampio ar dir y fferm. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus ac ambell gleient wedi dychwelyd sawl gwaith i'r Cuddfan am eu gwyliau.

Fel pe na bai digon o waith gan Liz a Rosie eisoes, maen nhw hefyd yn rhoi cartref i anifeiliaid sydd wedi dod i loches cŵn Almost Home ger Nercwys. Maen nhw wedi cael maharen, moch, ieir, cathod a sawl ci.

Diolchwyd i Liz am y sgwrs, a chafwyd paned a chyfle i brofi diodydd Schlizzy – blasus iawn! Tynnwyd y raffl ac atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesa bnawn dydd Mercher, 20 Mawrth. Penderfynwyd cynnal bore coffi i godi arian at y Clwb ddydd Sadwrn, 23 Mawrth a rhannu'r elw â Beiciau Gwaed Cymru.

# Clwb gweu a chrefftau



Dyma Karen Connell yn esbonio patrwm crosio i rai o aelodau'r clwb crefftau sy'n cyfarfod am 10 o'r gloch ar fore dydd Llun yn yr Ystafelloedd Coco. Os hoffech chi alw heibio, cysylltwch a Carolyn ar 01824 790122 am ragor o wybodaeth.

# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

Bydd y cyfarfod nesa NOS FAWRTH, 19 Mawrth am 7 o'rgloch, gyda Dr Rachel Pope, Darllenydd mewn Archeoleg cynhanesyddol Ewrop, Clasuron ac Eifftoleg, Prifysgol Lerpwl, a fydd yn sôn am ddyddio carbon Penycloddiau.

Am ragor o fanylion, anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com.

**BORE COFFI**
**Dydd Sadwrn, 23 Mawrth**
**10:00 – 11:30**
**Neuadd y Pentre, Llandyrnog**
**er budd y Tuesday Club a Beiciau Gwaed Cymru**

**STONDIN GACENNAU A CHYNNYRCH A RAFFL**
**DERBYNNIR UNRHYW GYFRANIAD AT YR UCHOD GYDA DIOLCH**

**Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Anwen Davies: 07340 271051**

# Hanesion Hazel

On’d ydy hi wedi bod yn aeaf hir, gwlyb a gwyntog? Ond o’r diwedd, mae’r Gwanwyn yn dod gyda’r heulwen yn cynhesu, adar yn canu, gwenyn yn sïo a bylbiau’n blodeuo. Mae’r gwanwyn meteorolegol yn dechrau ar 1 Mawrth, a’r gwanwyn seryddol yn dechrau ar 19 Mawrth tua 11.05pm, gan ei bod hi’n flwyddyn naid. Dyma’r adeg pan mae’r haul yn union uwchben cyhydedd y ddaear wrth iddo godi tua’r gogledd. Dyma’r cyfnod o adael misoedd oer y gaeaf ar ein holau, gobeithio, a mynd tuag at fisoedd cynnes yr haf.

Un o arwyddion cynta’r gwanwyn i mi yw’r ceiliogod yn dechrau clochdar. Mae hyn yn dechrau fel arfer yn hynod o gynnar ar fore tywyll. Ar ôl cyd-fyw’n fodlon am fisoedd, yn sydyn maen nhw’n anghytuno dros fân bethau sy’n gallu datblygu’n ymladd. Dros y blynyddoedd, mae ceiliogod hynod dreisgar wedi ymosod arna i, ar ymwelwyr a hyd yn oedd ar y cŵn diniwed, druan â nhw. Rwyf wedi defnyddio sawl brwsh i’w chwifio tuag atyn nhw ac rwy hyd yn oed wedi gwneud ‘ffon ieir’ i’w sgubo o’r neilltu. Maen nhw’n disgwyl amdanoch chi ac yn rhuthro y tu ôl i chi, yn neidio ac yn chwifio’u hadenydd.


ELVIS
Brenin y cwt ieir

Yr adeg hon o’r flwyddyn, maen nhw’n ymladd i sefydlu’u hawdurdod dros y rhai iau sy’n ceisio dringo’r ysgol i safle pwysicach. Maen nhw fel petaen nhw’n gwybod pan mae’r prif geiliog yn heneiddio, ac maen nhw’n mentro’u lwc. Gobeithio bod Elvis yn dal i fod yn frenin y cwt ieir ac y byddan nhw’n setlo i’r drefn eto.

Ydyn nhw’n ymladd â’r ieir? Byddan nhw’n pigo iâr sydd fel teyrn, ond dim byd pwysig. Ond mae rhai ieir pengaled a fydd yn sgwario at Elvis, yn enwedig iâr gynffonddu o’r enw ‘Cynffonddu’ (fawr ddim dychymyg yn fan’na!). Mae hi’n gostwng ei phen ac yn codi’i chynffon fel petai’n dweud, ‘Ty’d o’na, ty’d amdana i.’ Bydd golwg syn ar wyneb Elvis i ddechrau a bydd yn ei hanwybyddu nes y bydd hi’n rhoi’r gorau iddi. Mae’r bechgyn yn hel eu hoff ferched at ei gilydd. Mae un giang yn dianc o dan fy ffens drwy’r amser i gaeau fy nghymdogion, ac mae’n rhaid i mi weiddi arnyn nhw i ddod i gael eu bwyd.

Bydd dyddiau heulog cyson yn rhoi mwy o gyfle i fwynhau’r awyr agored a’r ardd yn dechrau bywiocáu. Y prif waith i mi fydd paratoi’r gwelyau llysiau a hau. Bydd llawer o waith tacluso hefyd i’w wneud cyn i bopeth ddechrau tyfu. Erbyn mis Mawrth, bydd y glaswellt yn glasu i Bob – mae’n cael llond bol ar fwyta gwair. Mae’n tynnu dail oddi ar goed celyn am ryw reswm, ac yn eu gadael nhw ar y llawr heb eu bwyta. Mae’n siŵr ei fod yn gwneud hyn oherwydd bod blas chwerw arnyn nhw. Bydd yn croesawu’r dyddiau hirach pan fydd glaswellt melys y gwanwyn yn dechrau. Ond fydda i ddim, gan y bydd yn golygu dechrau’r tymor torri glaswellt – dwi ddim yn hoffi gwneud hyn.

Hazel

# Clwb Pêl-droed Llandyrnog




Mae rheolwr y tîm cyntaf ar hyn o bryd, Sion Morris, wedi dweud na fydd yn parhau yn ei swydd ar ôl diwedd y tymor. Mae Sion a'i bartner yn disgwyl eu plentyn cyntaf ym mis Gorffennaf. Yn naturiol, fydd Sion wedyn yn methu canolbwyntio ar reoli'r tîm, sy'n hollol ddealladwy. Mae'r clwb yn diolch yn fawr i Sion am ei holl waith ers dod yn rheolwr. Gan fod cymaint o chwaraewyr allweddol wedi'u hanafu, mae wedi bod yn anodd iddo symud y clwb yn ei flaen yn y gynghrair. Dymunwn y gorau i Sion a'i bartner yn eu dyfodol.

Gyda thristwch rydyn ni hefyd yn cyhoeddi y bydd yr hyfforddwr, Jack Cooledge, yn gadael ar ddiwedd y tymor i deithio i UDA am bedwar mis. Eto, mae'r clwb yn diolch yn fawr i Jack am ei holl waith yn ystod ei gyfnod yn y clwb. Mae ffitrwydd y tîm wedi gwella ers iddo fod yma.




Dymunwn siwrnai ddiogel i Jack ac mae'n siŵr y byddwn yn ei weld ar ochr y cae yn cefnogi'r tîm pan fydd yn ei ôl.

Mae'r clwb nawr yn chwilio am dîm rheoli/hyfforddi newydd. Cysylltwch os oes gennych chi ddiddordeb.

# Capel y Dyffryn

***Y Gymdeithas*** Nos Lun 5 Chwefror cafwyd Noson o Bingo hwyliog iawn yng ngofal Rhys Davies.

Nos Lun 19 Chwefror cafwyd noson ddiddorol dros ben yng nghwmni Sara Evans, Llanbenwch a oedd yn sôn am y datblygiadau cyffrous sy wedi digwydd yn ystod y dair blynedd ddiwethaf o ran y safle carafanau, siop a chaffi.



*Ffiona a Sara yn y Gymdeithas*

Pen blwydd hapus i Helen Roberts a fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed yn ystod y mis.

Bydd Swper Gŵyl Ddewi ***Nos Fawrth 5ed Mawrth am 6.30pm.***

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| *10/03* | *11.00* | *Parch Aneurin Owen* |
| *17/03* | *9.45* | *Parch John Owen* |
| *24/03* | *9.45* | *Parch Andras Iago* |
| *24/03* | *5.00* | *Cymanfa Ganu* |
| *31/03* | *10.00* | *Oedfa'r Fro'r Pasg, Llanrhaeadr* |

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Taith i'r Aifft

Aethom ar ein gwyliau dechrau'r flwyddyn i'r Aifft a gwneud ychydig o ymchwil i hanes y teulu Davies Bryan – yn wreiddiol o Lanarmon, a fu'n hynod lwyddiannus yn sefydlu busnes enfawr yn yr Aifft.

Roedd y brodyr Bryan yn ewythrod i fy ddiweddar Nain 'Pant y Gynnau' ym Mryn Saith Marchog. (Cyfenw fy hen Nain oedd Bryan) a dwi'n cofio hi'n sôn am gyfarfod ei theulu o'r Aifft.

Ganwyd y brodyr Bryan yng Nghamddwr, Llanarmon yn Iâl, yn feibion i Edward ac Elinor Bryan. Rheolwr yng ngwaith mwyngloddio Minera oedd Edward. Er mai Bryan oedd yr unig gyfenw, fe fedyddiwyd John yn John Davies Bryan gan aelod o'r teulu – Y Parch John Davies, Nercwys, a fynnodd fod y baban yn cario ei enw ef hefyd!

Felly y bu mewn blynyddoedd i'r teulu fabwysiadu'r enw Davies Bryan ar eu cwmni. Roedd eu rhieni yn benderfynol iddynt edrych am fywyd gwell ac iddynt geisio dechrau busnes ei hunain. Er mwyn cael profiad, bu John yn gweithio mewn siopau dillad ym Mostyn a Lerpwl cyn sefydlu busnes gwerthu dillad dynion yn 12 Stryd y Bont Caernarfon. Tyfodd y busnes yn gyflym a gydag amser roedd y tri o'i frodyr wedi ymuno yn bartneriaid ac yn byw yn Segontium Terrace. Trwy gydol eu hoes roedd y brodyr yn cydweithio'n agos ac yn ddibynnol iawn ar ei gilydd. Yn anffodus nid oedd John yn mwynhau'r iechyd gorau a pherswadiodd ei gefnder, Samuel Evans o Rosllannerchrugog, a oedd yn gweithio yn yr Aifft, John i dreulio gaeaf 1886–87 yn Cairo lle roedd yr hinsawdd yn llawer mwy addas i'w iechyd bregus.

Roedd Samuel yn ddylanwadol iawn yn yr Aifft cyn symud i Dde Affrica i ddod yn un o ffigyrau amlycaf yn y diwydiant aur a diemwntiau – ond stori arall ydi honno. Oherwydd ei gefndir amaethyddol, treuliodd Samuel y penwythnosau yn prynu a gwerthu camelod, felly roedd ganddo ddealltwriaeth dda o'r Eifftwyr. Roedd ymweliad John â'r Aifft



*Edward, John, Robert a Joseph Davies Bryan*

wedi ei amseru'n berffaith. Yn dilyn rhyfel 1882, pan lwyddodd Prydain i oresgyn yr Aifft er mwyn diogelu ei buddsoddiad yng nghamlas Suez, roedd diddordeb mawr gan drigolion cyfoethog Ewrop i dreulio'r gaeaf yn yr Aifft. Gwelodd John gyfle a gydag amser sefydlodd fusnes ar lawr gwaelod gwesty'r Continental i ateb y galw am ddillad moethus.

Llwyddodd y busnes drwy werthu dillad, hetiau ac esgidiau a phob math o bethau moethus wedi eu mewnforio o Ewrop a'u gwerthu am bris sefydlog yn hytrach na tharo bargen rhwng y prynwr a'r gwerthwr, fel yr arferiad yn yr Aifft. I dorri stori hir yn fyr, bu'r busnes yn llwyddiannus iawn ac mewn dim amser fe agorwyd siop arall yn Alexandria yn 1888. Yn anffodus, bu John farw yn 1888 ac yntau ddim ond yn 31 ond erbyn hyn roedd y brodyr eraill yn rhan o'r busnes, yn ogystal â rhedeg y busnes yn Stryd y Bont Caernarfon.

Agorodd y tri brawd – Robert, Joseph ac Edward, siopau ychwanegol yn Port Said a Khartoum yn Sudan. Gydag amser gwerthwyd y siop yn Stryd y Bont er mwyn canolbwyntio ar y pedair siop yn yr Aifft. Erbyn 1910 roedd trosiant ac elw'r busnes yn ddigonol i adeiladu siop enfawr yn Cairo gyda'r enw 'St David's Building', oedd ar y pryd yn adeilad masnachol mwyaf y wlad.

# Taith i'r Aifft: parhad



Do, cawsom gyfle i edrych o gwmpas a thu mewn i'r adeilad. Mae'r llythrennau D a B i'w gweld yn glir uwchben un fynedfa. Ar fynedfa arall gwelsom y geiriau: 'Y GWIR YN ERBYN Y BYD', a logo Gorsedd y Beirdd ar wal arall.

Parhaodd yr enw Davies Bryan & Co ar y siopau tan ganol pum degau'r ganrif ddiwethaf ac roedden nhw'n cael eu rhedeg gan gyfrifydd y busnes, cyn ei werthu i deulu o Syria. Bu farw'r brawd ieuengaf, Robert, yn 61 yn 'St David's Building' yn 1920 er bod ei galon yn y Llyfrgell Genedlaethol a Phrifysgol Cymru yn Aberystwyth. Mae'n debyg fod Robert yn fwy o gerddor ac academydd ond trwy eu hoes bu'r pedwar brawd yn cyfrannu'n helaeth i'r diwylliant Cymraeg. Cyhoeddwyd llythyrau John i'r genedl Gymreig mewn un gyfrol yn 1908 dan y teitl *O'r Aifft*.

Mae nifer o erthyglau'r brodyr yn reit ddoniol ac mewn un erthygl reit ddychanol yn disgrifio gwisg y brodorion 'fel petai eu tŷ ar dân ac wedi gwisgo beth oedd ar gael cyn dianc i'r stryd'! Lwc fod trigolion Cairo ddim yn deall Cymraeg.

Mae'n debyg bod un o'r brodyr wedi dysgu hedfan ac wedi gobeithio am ganiatâd i hedfan mewn i ardd y teulu yn Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. Da o beth efallai fod yr awdurdodau wedi gwrthod y cais! Trwy gydol eu hoes cyfrannodd y teulu yn helaeth i wahanol fudiadau yng Nghymru a'r Aifft ond efallai mai'r cyfraniad mwyaf nodedig oedd prynu 85 acer ym Mhenglais, Aberystwyth, i ehangu'r Llyfrgell ac i ehangu adeiladau'r Brifysgol. Mae'r llyfr O *Gamddwr i Cairo* gan Sian Wyn Jones yn adrodd eu hanes yn fanwl ac yn ôl mam (Margaret Williams, Rhiwbebyll Isaf) mae pentyrrau o wybodaeth am hanes y teulu yn Llyfrgell Caernarfon.

*Caerwyn Williams,*
*Caerdydd (Rhiwbebyll Isaf gynt)*


**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**

**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Bryn wrth y llyw

Fe ddaeth y cyfnod hwnnw eto o roi anrhegion a'u cael gan deulu a ffrindiau ac roeddwn i wedi cyffroi i weld – unwaith eto – bocs bach o Virgin Experience. Roedd fy merch, Lisa, wedi penderfynu ei bod hi'n bryd i mi roi cynnig ar rywbeth gwahanol – ac yn wir, roedd yn rhywbeth gwahanol iawn – gwers hedfan hofrennydd.

Dwi'n meddwl 'mod i wedi gwelwi am chydig – gallai rhywbeth mawr mynd o'i le. Gan fy ngweld i mewn gwewyr (wel, yn dawel), triodd Anwen fy mherswadio i i'w 'gyfnewid am rywbeth arall'. Oedd, roedd hyd yn oed mynd ar fy mhen fy hun mewn *microlight* yn rhedeg ar dri silindr dros Bwll Ceris ac o dan Bont Menai mewn gwynt 60mya yn swnio'n saffach na hyn.

Ond rhaid oedd ei wneud, a gorau pob gynta. Felly, dyma archebu fy lle ar unwaith.

Roeddwn i'n gwybod ar y pryd ei bod hi'n hynod anodd hedfan hofrennydd – mae cael y llygaid, y dwylo a'r traed i gydweithio'n berffaith yn hanfodol. Gallaf wneud dau beth ar yr un pryd, ond mae tri yn anodd. Yn y *Daily Post* ym mis Ionawr roedd stori am hofrennydd yn syrthio o'r awyr ym maes awyr y Trallwng (lle'r oeddwn i'n mynd i fynd), ddim yn gwneud lles i fy hyder o gwbl. Roedd y llun gyda'r adroddiad yn debyg i awyren Airfix wedi'i gollwng o uchder mawr ar goncrit.

Roedd hyn wedi digwydd oherwydd diffyg cyfathrebu rhwng y peilot a'i 'ddysgwr' – fi fydd hwnnw, meddyliais. Byddwch yn falch o glywed bod y ddau wedi byw, beth bynnag. Felly roedd yn rhaid i fi feistroli hyn hefyd – cyfathrebu. Dydw i ddim yn gyfathrebwr da – mae Anwen, chware teg iddi, yn gallu darllen fy meddwl. Beth allai fynd o chwith?

***Cyclic pitch levers*, *collective pitch levers* – geirfa hollol newydd**

Aeth Anwen a fi i'r Trallwng, ac roedd pob dim yn barod ar ein cyfer. Roedd y peilot yn disgwyl amdana i a dau arall a oedd wedi dewis y profiad hwn. Un o'r teithwyr eraill



oedd Richard 'Moggie' Morgan (gyda fi yn y llun uchod) sydd a'i gyfres deledu ei hun am drosi ceir clasurol yn geir trydan, *Vintage Voltage* (ewch i [www.electricclassiccars.co.uk](http://www.electricclassiccars.co.uk) i gael rhagor o wybodaeth amdano). Mae'n debyg ei fod yntau wedi cael bocs Virgin Experience am sesiwn blasu whisgi yn Llundain, ond roedd yn well ganddo gael gwers gyrru hofrennydd, gyda'i fab a oedd yn edrych yn rhy ifanc i hedfan hofrennydd. Bu Anwen a gwraig Moggie yn sgwrsio (am yswiriant bywyd, fwy na thebyg) ar batio'r caffi wrth iddyn nhw bwyntio'u ffonau at yr hofrenydd i gael lluniau a fideos o'u gwŷr wrth y llyw. Yn ystod y sgwrs, clywodd Anwen mai newydd basio'i brawf gyrru roedd y Mr Morgan iau.

Yn hytrach na mynd am dro bach braf yn yr hofrenydd, fel mae Anwen yn ei fwynhau, y tro hwn ces i weld yr injan, sut mae'n gweithio, beth sy'n cysylltu â beth. Mae'n gymhleth, credwch chi fi. Ac wrth gwrs, sut i drin y *cyclic pitch lever* – yr *handlebars*. Wel – yn ofalus iawn. Peidiwch â thisian na phesychu. A pheidiwch â rhoi'ch llaw arall yn eich poced. Fel arfer rwy'n cadw goriadau'r car ym mhoced fy nhrowsus, ond y tro hwn roeddwn i wedi rhoi goriadau'r car i Anwen cyn i ni hedfan – jyst rhag ofn!

Roeddwn i'n hynod falch o glywed Andy ein peilot yn dweud na fyddai'n disgwyl i ni godi oddi ar y ddaear – dim ond llywio'r hofrennydd tra oedden ni yn yr awyr, a dyna'r cyfan.

# Bryn wrth y llyw: parhad



*'Bryn, paid â chware efo hwnna!'*

Roeddwn i'n iawn wedyn.

Mae cyfathrebu'n allweddol – fe roeson ni i gyd ein clustffonau am ein pennau ac roedd Andy yn gadarn iawn gyda fy nau deithiwr: 'Peidiwch â siarad – yr unig rai dwi eisiau'u clywed yw Bryn a'r tŵr rheoli!' Dechreuodd yr hofrennydd yn swnllyd iawn, ond bobl bach, roeddwn i'n edrych ymlaen yn fawr at reoli'r peiriant anhygoel!

Esboniodd Andy y byddai'n dweud wrtha i, pan fyddwn ni'n cyrraedd rhyw uchder penodol, 'Bryn, ti sy'n rheoli'. O fewn dim, fe glywais i'r geiriau ac fe gododd ei fraich oddi ar y *cyclic* – a dyna ni. Fe ges i gyfarwyddyd i fynd tuag at Gefnen Kerry – ychydig i'r chwith o Drenewydd, a gan ein bod yn teithio 100mya roedden ni yno mewn llai na deg munud. Gyda help Andy, a oedd yn defnyddio'r pedalau, llwyddais i wneud hanner cylch llydan iawn a mynd yn ôl tuag at y Trallwng. A bod yn deg, roedd Andy wedi dweud wrtha i os oeddwn i ychydig yn nerfus, i ddweud 'Andy, take control' neu petai fy nghyd-deithwyr yn dechrau sgrechian, byddai yn fy helpu – chware teg iddo. Mae fel hofrennydd *dual control*, wedi'i wneud yn bwrpasol i'r math yma o beth.

Gan mai fi oedd y cyntaf o'r tri i hedfan, ar ôl i ni lanio, aeth Richard i'r sedd bwysig, ac eisteddais i yn y sedd gefn. I ffwrdd a ni eto, ond y tro yma, ces i gyfle i ymlacio a mwynhau'r olygfa wych.

Profiad bythgofiadwy arall – diolch, Lisa!

*Bryn Davies*

# Cadwch ein llwybrau'n lân

Dyma atgoffa'n gwrtais y rheini sy'n marchogaeth eu ceffylau ar y palmant rhwng Croesffordd Celynog a Llangwyfan, bod Rheol 54 Rheolau'r Ffordd Fawr yn dweud; "**RHAID I CHI BEIDIO** â mynd â cheffyl ar lwybr troed na phalmant…"

Dyma'r sefyllfa yn ddiweddar: roedd yn rhaid i fam â babi ifanc mewn pram gerdded ar y ffordd oherwydd cyflwr ffiaidd y palmant.

Felly os ydych chi'n gwybod pwy sy'n marchogaeth ar y palmant, atgoffwch nhw eu bod nhw'n mynd yn groes i Reolau'r Ffordd Fawr.




GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

01745 815141
07808970364

E-bost: evansautoclinic@btconnect.com

# Neges gan ein hoffeiriad

Rwy'n hynod falch o'r cyfle hwn i gyfathrebu â chi drwy'r erthygl hon ac mae'n braf cysylltu â phobl yn y gymdeithas ar ran eglwys y pentref. Wrth gwrs, dyna yw'n prif bwrpas ni, bod yng nghalon y gymuned, ei gwasanaethu. Fel mae campfa yn cadw pobl yn iach yn gorfforol, mae eglwysi a chapeli yn gwneud daioni i les ysbrydol a moesol y gymdeithas.

Mae eglwysi a chapeli'n credu mai Duw yw Iesu. Wrth gredu hyn, fel dilynwyr cyntaf Iesu ar ddechrau ei weinidogaeth yng Ngalilea a roddodd y gorau i bob peth ar unwaith a'i ddilyn, rydyn ni Gristnogion yn ein biliynau ledled y byd yn ymroi rhannau o'n bywydau i ddysgu o'i wersi, gwrando ar ei straeon a byw wrthyn nhw. Mae'n anodd esbonio ffydd yn Iesu wrth rywun sydd heb ddiddordeb ynddi, sy'n cael anhawster i'w chymryd o ddifri na'i chredu. Pan welwch chi rywun yn sylweddoli bod Iesu yn real a gweld effaith hyn ar ei fywyd, wrth iddyn nhw dyfu yng nghariad Duw, dyna'r teimlad fwyaf anhygoel. Rydych yn gwybod y bydd Iesu yn ffrind iddyn nhw am weddill eu hoes, beth bynnag fydd yn digwydd iddyn nhw. Maen nhw ar daith i ddysgu am wirionedd bywyd ac yn tyfu wrth iddyn nhw gael ystyr a phwrpas iddyn nhw'u hunain.

Mae'r enghreifftiau o fywydau ar y daith honno drwy ffydd yn ddirifedi ac yn ein hysbrydoli. Ar ddydd Mercher, mae croeso i bawb ddod i eglwys St Dyfnog, Llanrhaeadr, lle rydyn ni'n cyfarfod am 10.30 y bore i ddysgu am y saint a sut y gallan nhw ddod â ni'n nes at Iesu. Gan fod hwn yn rhifyn mis Mawrth o'r *Llais*, rhaid sôn am ein nawddsant ni, Dewi. Mae llawer o straeon am Ddewi Sant a'r dyfyniad ganddo a gaiff ei ailadrodd amlaf yw, "Gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i."

Am y rhan fwyaf o fis Mawrth, byddwn yn nhymor y Grawys, gan ddathlu'r Pasg ei hun ar y diwrnod olaf un. Yn ystod y cyfnod hwn rydyn ni'n ystyried ein perthynas â Duw yn nes ac yn fwy bwriadol. Mae'n cynrychioli'r 40 nos a 40 diwrnod a dreuliodd Iesu yn yr anialwch ar ddechrau ei weinidogaeth.



*Cerflun Dewi Sant yng Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi*

Gan fod Iesu wedi goresgyn ei demtasiynau yn y diffeithwch hwnnw, rydyn ni'n ystyried y pethau yn ein bywydau nad ydyn ni'n falch ohonyn nhw. Rydyn ni'n gwybod bod cael ein bedyddio yn golygu dechrau gofyn i Iesu am help gyda'r pethau drwg yn ein bywyd, oherwydd fe wnaeth ef eu goresgyn nhw. Beth am feddwl am rywbeth y dylech chi ymwrthod ag o yn eich bywyd chi?

Mae Duw yn real ac mae Duw yn eich caru chi. Efallai y gallech chi drio cysylltu â Duw eich hun y mis yma. Rhowch eiliad neu ddwy i ystyried y posibilrwydd y gallai creawdwr pob peth gyfathrebu â chi mewn gwirionedd agos a chariadus. Yn ystod mis Mawrth, mwynhewch y cennin pedr o'n cwmpas a boed i Dduw eich bendithio chi!

*Y Parch. Martin Pritchard*
*Ardal Genhadu Dinbych*

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Cymdeithas Astronomeg Llandyrnog

Ydych chi wedi edrych i fyny'n ddiweddar at awyr y nos a meddwl, "Beth yw'r seren lachar yna?" Wel, dydy'r 'seren' honno sydd wedi bod yn amlwg yn awyr y nos ers rai misoedd ddim yn seren – y blaned Iau yw hi, y blaned fwyaf yn ein cysawd yr haul – *solar system*.

Ddiwedd mis Ionawr, 15 mlynedd ers dechrau Cymdeithas Seryddiaeth Llandyrnog, daeth grŵp o bobl ryfedd at ei gilydd mewn maes parcio y tu ôl i'r Golden Lion yn Llangynhafal. Aelodau'r Gymdeithas oedd y rhain, a dyma'r tro cynta iddyn nhw gyfarfod i syllu ar y sêr ers cyn cyfnod Covid.



Er bod yr aelodau wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd dros y blynyddoedd diwetha, mae'r tywydd wedi'n rhwystro ni rhag gwneud yr hyn rydyn ni wrth ein boddau'n gwneud, sef syllu ar awyr y nos a'i golygfeydd gwych, naill ai drwy finocwlars neu delesgop, neu hyd yn oed heb y rhain.

Seryddiaeth yw un o'r hobïau hawsaf i'w mwynhau gan mai awyr glir yw'r unig anghenraid. Hyd yn oed heb delesgop, gallwch weld sut mae'r cytserau – *constellations* – yn newid dros y flwyddyn, mwynhau edrych ar y planedau wrth iddyn nhw droi o gwmpas yr haul gyda ni, mwynhau cawodydd meteorau, a hyd yn oed yn yr awyr fwyaf dywyll, gweld galaeth bell bell heb ddefnyddio dim ond eich llygaid! Ond bydd hyd yn oed binocwlars bach yn datgelu toreth o glystyrau sêr, lleuadau'r blaned Iau a meithrinfeydd sêr fel nifwl Orion, lle mae sêr newydd yn cael eu geni.

Felly gyda phob math o delesgopau, binocwlars a chamerâu, dyma ni'n gosod ein hoffer yn y maes parcio a mwynhau rhai o ryfeddodau'r bydysawd.

Yr adeg hon o'r flwyddyn, mae cytser Orion yn amlwg iawn yn awyr y de, gyda'i seren oren lachar, Betelgeuse a'i seren las, Rigel ac mae'r tair seren sy'n ffurfio llathen Fair – *Orion's belt* – yn ddigon hawdd eu gweld. Ond hefyd mae seren aneglur i'w gweld o dan y llathen. Dyma nifwl Orïon mawr ac at hwn wnaethon ni bwyntio'n telesgopau gynta. Ac am olygfa!

Gwelodd un o'r aelodau nifwl Andromeda am y tro cynta, ac wedyn mynd ati i chwilio am nifwl Orion.

Yn nesa, gwelwyd brenhines y planedau, Iau, a'i phedair lleuad Galilei (wedi'u henwi ar ôl Galileo Galilei a welodd y lleuadau gyntaf yn yr ail ganrif ar bymtheg drwy un o'r telesgopau cyntaf erioed).

Hefyd buon ni'n edrych ar glwstwr y Cwch Gwenyn, clwstwr y Pleiades (mae'n bosib gweld y rhain heb help sbienddrych, ond mae binocwlars yn datgelu gleiniau o ser sy'n edrych yn rhyfeddol), yn ogystal ag ambell glwstwr llai fel M35 (clwstwr bwcwl esgidiau) ac M41, y cwch gwenyn bach.

Noson fendigedig, gyda phobl hyfryd, offer gwych, ac o'r diwedd, awyr glir!

Dywedodd un aelod newydd, '*Fe wnes i fwynhau'n fawr a dysgu llawer, fe ges i croeso cynnes ar noson oer a chlir. Gadewais gyda'r holl ddarluniau o'r cosmos rhyfeddol y gwnaethoch chi eu rhannu â fi.*'

Rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen at ein cyfarfod nesa (os bydd y tywydd yn ffafriol) – does dim tâl am ymuno â ni ac os nad ydych chi erioed wedi edrych drwy delesgop, dewch draw a chael profiad arallfydol! Bydd ein cyfarfod nesa nos Fawrth, 26 Mawrth yn y Golden Lion, Llangynhafal am 7.30. Ymunwch â ni ac efallai byddwch chi'n dysgu rhywbeth newydd am awyr y nos.

# Cyngor Cymuned Llandyrnog

- Roedd y plismon cymunedol wedi anfon ei ymddiheuriad, ond anfonodd adroddiad ysgrifenedig i gadarnhau nad oedd unrhyw ddigwyddiad wedi'i gofnodi ers ei ymweliad a chyfarfod mis Ionawr.
- Mae'r anhawster ynghylch parcio y tu allan i Oliver's Row wedi codi eto ac mae angen datrys y broblem drwy gael adran y ffyrdd, yr heddlu a'r trigolion i gydweithio. Dydy gosod llinellau melyn ddim yn ddewis.
- Y ffordd tuag at faes parcio Maes Llan – mae'r Clerc wedi gofyn cyngor Un Llais Cymru ac mae'r sefydliad wedi gwneud rhagor o ymchwil. Cadarnhaodd nad yw'r tir wedi'i gofrestru ac os yw Cyngor Sir Ddinbych wedi dweud nad yw'n berchen ar y tir, roedd yn fater anodd ei ddatrys. Cyngor Un Llais Cymru oedd peidio ag ymgymryd ag unrhyw waith cynnal a chadw ac y gallai'r rheini sydd wedi'u heffeithio wneud cais am feddiant gwrthgefn ar y tir.
- Roedd yr adran gynllunio wedi cadarnhau, er eu bod wedi cytuno i roi caniatâd cynllunio i ddechrau gweithio ar y rotundas, roedd y caniatâd gwirioneddol heb ei roi oherwydd oedi yn yr ymrwymiad statudol a oedd yn cysylltu'r dafarn â'r datblygiad.
- Roedd y Clerc wedi dosbarthu sleidiau a gyflwynwyd yn y gweithdy diweddar a oedd yn esbonio'r drefn newydd i ailgylchu gwastraff. Cadarnhaodd y Cyngh. Parry y bydd gan GSDd dîm penodol i ddelio ag ymholiadau yn ystod y cyfnod o newid o'r hen drefn i'r un newydd, a bydd yr holl drigolion yn cael pecyn gwybodaeth llawn cyn bo hir.
- Mae'r cyngor wedi llwyddo i gael grant gan Fferm Wynt Brenig i osod offer clyweled yn yr Ystafelloedd Coco, a fydd ar gael i unrhyw un sydd am gynnal cyfarfodydd rhithiol. Bydd y gwaith yn cael ei drefnu maes o law.
- Cynrychiolodd y Cyngh. Butler y Cyngor yng nghyfarfod Cyfeillion Ysbyty Rhuthun. Mae'r Ffrindiau wedi prynu sawl teclyn gan gynnwys peiriant i gael hyd i wythiennau. Bydd y cyfarfod nesa'n cyd-daro â'u pen blwydd yn 60 oed.
- Mae'r Cyngh. Parry yn mynd i gyfarfod a chynrychiolydd Grŵp Busnes Clean Tech i weld a oedd unrhyw fantais i osod paneli solar ar yr Ystafelloedd Coco.
- Penderfynwyd bod angen cynllun busnes ar y Cyngor i ddiogelu ei arian wrth gefn. Bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgor cyllid.
- Mae CSDd wedi cael cais i addasu map terfynol. Mae hyn yn golygu uwchraddio llwybr 36, sy'n mynd o Green Farm i Dŷ Gwyn, o lwybr troed i fod yn gilffordd gyfyngedig. Cilffordd yw llwybr y mae'r cyhoeddi yn cael teithio ar ei hyd ar droed, ar gefn ceffyl ac ar gefn cerbydau heb beiriant. Hefyd caniateir gyrru anifeiliaid ar hyd iddi. Trafododd y cyngor y mater am dipyn o amser a phenderfynodd nad oedd ganddo dystiolaeth i brofi bod y llwybr wedi bod yn ddim ond llwybr troed erioed.
- Cornel Brynllys: roedd hi'n siomedig gweld nad oes arwydd rhybuddio newydd wedi'i osod ger Brynllys, er i'r Cyngor Sir gael gwybod am y difrod iddo ym mis Hydref.
- Yn y cyfarfod nesa bydd y Cyngor yn trefnu helfa sbwriel.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*